

# DIWEDDARIAD GWANWYN 2020



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# Rhagair



Annwyl Ddarllenwyr,

Pan ysgrifennais atoch ychydig fisoedd yn ôl ynghylch y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ymateb i oblygiadau posibl Brexit heb gytundeb, allai neb fod wedi rhagweld y sefyllfa sy'n ein hwynebu bellach fel gwlad.

Ni welwyd gyfnod tebyg. Fodd bynnag, unwaith eto mae'n ein hysbrydoli i weld sut y mae pobol yn tynnu gyda'i gilydd acyn gweithio rownd y cloc fel diwydiant i wneud yn siŵr bod gan pobl Cymru fwyd ar eu byrddau.

Mae nifer o weithwyr allweddol sy'n hanfodol i iechyd a chadernid ein gwlad, gan gynnwys y rhai hynny sy'n rhan o'r gadwyn cyflenwi bwyd. Mae pob un ohonoch yn cynnig gwasanaeth hollbwysig. Hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad i ffermwyr, marchnadoedd da byw a phroseswyr am sicrhau bod y gadwyn cyflenwi bwyd yn parhau.

Mae cau y sector gwasanaeth bwyd wedi cael effaith sylweddol ar unwaith ar brisiau'r farchnad, gyda prisiau'n anwadal, rhywbeth yr wyf i fy hun yn ei fonitro'n fanwl iawn. Mae effaith COVID-19 yn cael ei deimlo ar draws pob sector. Rwy'n croesawu'r llacio dros dro pellach ar y cyfreithiau cystadlu, sy'n berthnasol i'r DU yn gyfan.

Bydd hyn yn caniatáu i'r diwydiant Ilaeth addasu i'r newidiadau hyn yn y gadwyn gyflenwi, gan alluogi'r diwydiant i gydweithio'n agosach ac i ddatrys y problemau y mae'n eu hwynebu.

Mae'r Grŵp Cadernid Amaethyddol sydd â chynrychiolaeth o'r undebau amaethyddol ac yn cynnwys ymhlith eraill CLA, TFA, a'r cyrff lefi wedi ei sefydlu ac rydym yn cyfarfod yn wythnosol. Mae Grwpiau Ffocws Llaeth, Cig Eidion ac Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi'u sefydlu hefyd. Mae'r wybodaeth a'r allbynnau o'r cyfarfodydd hyn yn bwydo i'n holl syniadau ar y ffordd orau o ddelio ag effaith y mesurau cynyddol i reoli'r achos o Covid-19 ac rwy'n ddiolchgar i randdeiliaid y diwydiant am yr wybodaeth y maent yn ei rannu a'r ffordd bositif y maent yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'n hollbwysig ein bod i gyd yn parhau i gydweithio ac rwy'n sylweddoli bod llawer mwy i'w wneud.

Byddwn yn mynd drwy hyn gyda'n gilydd ac rwy'n hynod ddiolchgar i bawb yn y diwydiant am yr holl waith yr maen't yn ei wneud i fwydo'r wlad.

Cadwch yn ddiogel ac yn iach.

Yn gywir

Lesley Griffiths AC/AM

# DYDDIADAU PWYSIG 2020

## MAI

4 Mai –

Cyfnod Sgiliau a Hyfforddiant Cyswllt Ffermio ar agor

## MEHEFIN

12 Mehefin –

Cau Datganiadau o Ddiddordeb Creu Coetir Glastir

15 Mehefin –

Dyddiad cau ar gyfer derbyn SAF 2020, a'r ffurflen gais Glastir – Tir Comin, heb gosb

## GORFFENNAF

10 Gorffennaf –

Diwrnod olaf ar gyfer derbyn SAF 2020 gyda cosbau hwyr. Bydd pob SAF a ddaw i law wedi'r 10 Gorffennaf yn cael ei wrthod

20 Gorffennaf –

Diwrnod olaf i ymateb i'r llythyr 'Gwiriadau Cychwynnol: Nodweddion Parhaol a Dyblygu Caeau' i osgoi cosbau

31 Gorffennaf –

Mae Dilysu Aml-ffactor (MFA) Porth y Llywodraeth wedi'i gyflwyno ar gyfer cwsmeriaid RPW Ar-lein

# Datganiad Taliadau Gwledig Cymru ar Coronafeirws (COVID-19)

Mae COVID 19 yn argyfwng byd-eang sy'n cael effaith arnom i gyd, ac mae'r mesurau sy'n cael eu cymryd i ddelio â'r sefyllfa yn datblygu'n ddyddiol. Ein blaenoriaeth gyntaf yw cynnal iechyd y cyhoedd yn unol â chyngor y Llywodraeth.

O ganlyniad i'r cyngor hwn, mae newidiadau wedi'u gwneud i rai o wasanaethau RPW. Mae'r newidiadau hyn wedi'u gwneud yn y gobaith y byddant yn lleihau yr effaith sylweddol y mae COVID-19 yn ei gael ar fusnesau fferm.

Mae rhai newidiadau wedi'u gwneud hefyd i'r ffordd yr ydym yn gweithio. Mae pob un o'r staff bellach yn gweithio o gartref. Rydym yn gwneud popeth y gallwn i wneud yn siŵr bod gwasanaethau cwsmeriaid a phrosesu yn cael ei gynnal, fodd bynnag mae'n anorfod y bydd rhywfaint o effaith ar ein gallu i ymateb yn gyflym.

Mae'r newidiadau i wasanaethau RPW ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Anfonir hysbysiad i bob cwsmer os y gwneir newidiadau pellach.

Evch i'r wefan i gael yr wybodaeth ddiweddaraf

[www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-coronafeirws-covid-19](http://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-coronafeirws-covid-19)

## Ymestyn dyddiad cau cyflwyno SAF 2020

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi cyflwyno deddfwriaeth i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer SAF tan 15 Mehefin. Mae hyn yn cynnwys ffurflen gais Glastir Tir Comin. Cofiwch y bydd ceisiadau a ddaw i law rhwng 16 Mehefin a hyd at a chan gynnwys 10 Gorffennaf yn gweld cosbau hawlio hwyr.

Gallwch lanlwytho'r dogfennau SAF 2020 i RPW ar-lein ac mae'n rhaid eu cyflwyno erbyn y dyddiad newydd, sef 15 Mehefin. Os nad ydych yn gallu cyflwyno unrhyw ddogfennau atodol erbyn y dyddiad cau dylech hysbysu RPW cyn y 15 Mehefin. Bydd hysbysu RPW yn golygu bod modd ichi gyflwyno y dogfennau wedi'r dyddiad cau. Ni fydd unrhyw ddogfennau sy'n cael eu cyflwyno wedi'r dyddiad cau na chafodd RPW eu hysbysu ohonynt yn cael eu hystyried.

Cysylltwch â Chanolfan Gyswllt Cwsmeriaid RPW ar 03000 625004 neu drwy eich cyfrif RPW Ar-lein ar unwaith os nad ydych yn gallu cyflwyno y SAF ar-lein neu os nad ydych yn gallu cyflwyno'r dogfennau atodol erbyn y dyddiad cau.




# Tyfu Amrywiaeth o Gnydau

Oherwydd y llifogydd diweddar a'r argyfwng COVID-19, mae'r Gweinidog hefyd wedi cyhoeddi bod deddfwriaeth wedi cael ei gyflwyno i ddileu y rheol Tyfu Amrywiaeth o Gnydau ar gyfer 2020.

O ganlyniad i'r newid hwn, nid oes angen i gwsmeriaid BPS gydymffurfio â'r gofyniad am ddau gnwd a thri cnwd i fod yn gymwys am y taliad gwyrddu.

Gall cwsmeriaid BPS barhau i fod yn gymwys ar gyfer taliad gwyrddu trwy ddatganiadau porfa barhaol ac Ardal Ecolegol.

Am ragor o ganllwiau ar y borfa barhaol a gofynion Ardal Ecolegol, ewch i wefan Llywodraeth Cymru  
[llyw.cymru/cynllun-y-taliad-sylfaenol-canllaw-gwyrdd](http://llyw.cymru/cynllun-y-taliad-sylfaenol-canllaw-gwyrdd)



# Elusenau Ffermio

Mae cymorth a chefnogaeth ar gael i'r rheini yn ein cymunedau gwledig sydd ei angen yn ystod y cyfnod anodd hwn.

---



## Rhwydwaith Cymunedau Ffermio

Sefydliad gwirfoddol ac elusenol yw Rhwydwaith Cymunedau Ffermio (FCN) sydd yn cefnogi ffermwyr, gweithwyr fferm a'u teuluoedd o fewn y gymuned amaethyddol mewn cyfnodau anodd.

Gall FCN gynorthwyo mewn amryw feysydd gwahanol, er engraifft iechyd a lles anifeiliaid, iechyd meddwl a chorfforol megis iselder, straen, unigrwydd, afiechyd tymor hir a damweiniau, yn ogystal a materion teuluol megis ymddeoliad, olyniaeth, tor perthynas a llunio ewyllys.

**Cysylltwch ar llinell gymorth sydd ar agor bob dydd rhwng 7am-11am 03000 111 999.**

**Ebost: [help@fcn.org.uk](mailto:help@fcn.org.uk) am ragor o wybodaeth ewch I [www.fcn.org.uk](http://www.fcn.org.uk)**

---



## Cronfa Addington

Elusen amaethyddol cofrestredig yw Cronfa Addington sydd ar adeg o argyfwng a phan fod caledi yn treiddio o bosib yn medru darparu cymorth I ffermwyr ar raddfa genedlaethol, rhanbarthol, neu yn unigol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r gronfa wedi arallgyfeirio I ddod yn elusen dai hefyd ynghyd a chanolbwyntio ar ffermwyr yn Lloegr a Chymru sy'n cael eu gorfodi I adael eu ffermydd heb unrhyw fai arnyn nhw eu hunain ac sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref. Yn ogystal a chartrefi ymddeol mae'r Gronfa bellach yn gallu cynnig nifer cyfyngedig o gartrefi ecwiti a rennir./ar rent. Mae wedi adeiladu portffolio o dai gwledig fforddiadwy I helpu teuluoedd ifanc I aros yn eu hardaloedd gwledig o'u dewis.

Y nod yw brwydro yn erbyn diboblogi a thlodi gwledig er mwyn cadw cefn gwlad yn gynaliadwy ac yn gydnherth

**Cysylltwch ar llinell gymorth : 01926 620135**  
**[www.addingtonfund.org.uk](http://www.addingtonfund.org.uk)**

## Sefydliad DPJ

Furfiwyd Sefydliad DPJ yng Ngorffenfaf 2016 o ganlyniad i farwolaeth Daniel Picton-Jones. Amacan y sefydliad ydy cynorthwyo trigolion o bob oed mewn cymunedau gwledig sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, yn arbennig dynion o fewn y sector amaethyddol.

Mae'r elusen yn darparu cwnsela rhad nodeddig gan bersonau cymwysedig mewn lleoliad o ddewis yr unigolyn (yn aml yn y cartref, dros y we neu alwad ffon).

**Cysylltwch ar llinell alwad sydd ar agor 24awr y dydd:  
0800 587 4262. Text line: 07860 048799  
[www.thedpjfoundation.com](http://www.thedpjfoundation.com)**

---

## Sefydliad Fuddianol Amaethyddol Frenhinol (RABI)

Y Sefydliad Fuddianol Amaethyddol Brenhinol (RABI) yw'r elusen amaethyddol fwyaf a hynaf sydd yn darparu cymorth ariannol, gofal ymarferol ac arweiniad i bobl o bob oed yn cynnwys ffermwyr, gweithwyr fferm a dibenyddion ar draws Cymru a Lloegr. Cynnigi'r cefnogaeth, wedi'i ddarparu yn arbennig ar gyfer anghenion yr unigolyn.

Tywydd eithafol, afiechyd meddwl a chorfforol, damweiniau, clefydau anifeiliaid a phroblemau llif arian yw rhai o'r rhesymau pam mae pobl yn cysylltu a'r elusuen. Gweledigaeth R.A.B.I yw na ddylai unrhyw aelod o'r gymuned ffermio orfod wnedbu adfyd ar ei ben ei hun.

**Llinell gymorth: 0808 2819490  
Ebost: [help@rabi.org.uk](mailto:help@rabi.org.uk)  
[www.rabi.org.uk](http://www.rabi.org.uk)**

---



## Tir Dewi

Elusen sy'n cefnogi ffermwyr a'u teuluoedd yw Tir Dewi. Mae rhwydwaith o wirfoddolwyr ar gael i wrando, blaenoriaethu a chynorthwyo i ddatrys problemau a hynny yn hollol gyfrinachol. Gall y gwirfoddolwyr gyfeirio ffermwyr at sefydliadau cysylltiol a all gynnig cymorth arbennigol i amryw o broblemau dyrys.

**I wybod sut all Tir Dewi eich helpu, cysylltwch a llinell  
gymorth: 0800 121 4722 neu ebostiwch: [mail@tirdewi.co.uk](mailto:mail@tirdewi.co.uk)**

# Arbenigwyr o'r Diwydiant yn Cael eu Penodi i Fwrdd HCC

Mae Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, wedi cyhoeddi penodiad pedwar Cyfarwyddwr newydd i'r bwrdd corff ardoll cig coch Hybu Cig Cymru (HCC).

Y pedwar aelod newydd o'r Bwrdd yw'r arbenigwr ar y diwydiant bwyd, Melody Chapman, Prif Weithredwr Farmers Marts Cyf, Priswyr a Gwerthwyr tai, Rhys Davies, partner fferm o Sir Benfro a arbenigwyr chyfathrebu o Seland Newydd, Nadine Porter a Chyfarwyddwr Caffael Da Byw Kepak, St Merryn, Prys Morgan.

Mae gan aelodau newydd y Bwrdd ystod eang o brofiad ar lefelau uwch yn y diwydiant bwyd ac yn y strategaeth gorfforaethol a llywodraethu, ac maent yn ymuno â'r Cadeirydd Kevin Roberts a chwe Chyfarwyddwr sydd wedi'u hailbenodi i roi arweiniad strategol a throsolwg i'r sefydliad.

Dywedodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:



**“ Hoffwn groesawu pob un o'r pedwar Cyfarwyddwr newydd i Fwrdd Hybu Cig Cymru, a llongyfarch Melody, Rhys, Prys a Nadine ar eu penodiad.**

**Maent yn ymuno â'r bwrdd ar adeg digynsail, gan fod pob sector cynnyrch bwyd - gan gynnwys y diwydiant cig coch – yn wynebu heriau mawr wrth i gadwyni cyflenwi a ffynonellau galw confensiynol, mewn marchnadoedd domestig ac allforio, gael eu taro gan y pandemig COVID-19 parhaus; heb sôn am yr effaith y mae'r argyfwng iechyd cyhoeddus eisoes wedi'i chael ar fusnes o ddydd i ddydd.**



Rhaid i'r Bwrdd allu cefnogi a herio'r tim gweithredol ar feysydd allweddol cynllunio strategol, llywodraethu corfforaethol a marchnata, a bydd angen i aelodau unigol o'r Bwrdd i allu cyfathrebu ac ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn effeithiol â thalwyr ardoll. Rwyf hefyd yn falch bod y broses o benodi wedi arwain at Fwrdd â chymbwysedd rhwng y rhywiau, gan adlewyrchu amrywiaeth y dalent yn y sector.

Rwy'n siŵr y bydd y rhai sydd newydd eu penodi yn gallu dod ag ehangder arbenigedd gwerthfawr yn ystod yr amser hwn, wrth inni wynebu nid yn unig her barhaus COVID-19 ond hefyd newidiadau sydd ar ddod i allforion wrth i sefyllfa fasnachu'r DU gyda'r UE barhau i fod yn ansicr."

## Gwasanaeth paru sgiliau Cymru

Mae gwasanaeth newydd ar-lein, fydd yn paru gweithwyr gyda ceiswyr swyddi sy'n chwilio am waith amaethyddol, ar y tir a gwaith milfeddygol yn ystod yr achosion o COVID-19, wedi cael ei lansio.

Wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, caiff gwasanaeth peilot newydd ei ddarparu gan Lantra, y prif gorff dyfarnu ar gyfer y diwydiannau tir yng Nghymru.

Bydd y gwasanaeth yn cysylltu gweithwyr posibl, gyda'r sgiliau a'r profiad perthnasol, gyda busnesau i sicrhau bod swyddi yn cael eu llenwi yn y misoedd nesaf, gan fynd i'r afael ag unrhyw brinder llafur posibl yn y sector o ganlyniad i'r achosion o COVID-19.

Mae ffurflenni paru sgiliau yn hawdd i'w llenwi a gellir eu llenwi ar-lein ar: [www.wales.lantra.co.uk](http://www.wales.lantra.co.uk).

Ar gyfer unigolion sydd heb gyfrifiadur neu sydd heb sgiliau TG digonol bydd Canolfan Cyswllt Ffermio yn gallu llenwi y ffurflenni ar-lein ar ei rhan.

(Gwasanaeth Cyswllt Ffermio Ffo:08456000813)

# Iechyd a Lles anifeiliaid

## Coronafeirws (COVID-19)

### Cynghor i geidwaid da byw a cheffylau

Os ydych chi'n gyfrifol am ofalu am dda byw neu geffylau, dylech baratoi cynllun wrth gefn ar gyfer gofalu amdanyn nhw pe baech chi, eich teulu neu'ch staff yn mynd yn sal neu os na fydd modd ichi allu rhoi'r gofal arferol.

Ystyriwch ddarllen eich cynllun parhau busnes os oes gennych un a cyngor Llywodraeth Cymru ar y Coronafeirws ar gyfer gweithwyr<sup>1</sup>

Ni ddylai ymweliadau gael eu gwneud yn fwy nag sy'n angenrheidiol i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid. Os ydy'r anifeiliaid yn cael eu cadw mewn lle arall, ddylech chi ddim ymweld â nhw fwy nag unwaith bob dydd.

Os ydych chi'n hunan-ynysu am eich bod yn dangos arwyddion y Coronafeirws neu os ydych wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd â'r symptomau, dylech osgoi dod i gysylltiad ag anifeiliaid. Ceisiwch drefnu bod rhywun arall sydd ddim yn hunan-ynysu yn gofalu am eich anifeiliaid chi. Os nad yw hynny'n bosibl, gofalgwch eich bod yn golchi'ch dwylo cyn ac ar ôl trafod yr anifeiliaid a'u cynnyrch. Mae'n bwysig eich bod yn dilyn cyfarwyddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru<sup>2</sup> ar hunan-ynysu.



1. <https://www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-information-for-individuals-and-businesses-in-wales>

2. <https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/self-isolation-advice/>

# Os oes angen sylw milfeddygol ar eich da byw neu geffylau



Os oes modd dylai unrhyw waith milffeddygol arferol e.e tocio carnau gael ei ohirio.

Os yw'ch anifail wedi cael anaf, yn sâl neu os oes angen triniaeth frys arno am gyflwr parhaus, ffoniwch eich milfeddyg i drafod y ffordd orau o drefnu'r gofal sydd ei angen ar eich anifail. Peidiwch â mynd at y milfeddyg heb drafod yn gyntaf. Os medrwch, trefnwch fod rhywun arall nad yw'n dangos unrhyw symptomau yn paratoi ar gyfer ymweliad eich milfeddyg neu siaradwch â'ch milfeddyg o bell gan osgoi cysylltiad agos. Gwnewch drefniadau arbennig cyn iddo ddod allan i osgoi'r perygl o drosglwyddo'r feirws.

Gwelwch y cyngor diweddaraf o'r Llywodraeth at:

[llyw.cymru/gofalu-am-anifeiliaid-yn-ystod-yr-achosion-o-coronafeirws](http://llyw.cymru/gofalu-am-anifeiliaid-yn-ystod-yr-achosion-o-coronafeirws)

---

## Bovine TB

### COVID-19

Ein cyngor diweddaraf yw ni ddylid parhau ag ymweliadau i brofi am TB oni bai bod pawb sy'n cymryd rhan yn gallu bodloni'r gofynion ar gyfer hunanynysu a chadw pellter cymdeithasol

Mae hon yn sefyllfa sy'n newid yn barhaus a dylai ceidwaid gyfeirio at y cwestiynau cyffredin profion TB statudol ar wartheg ym Mhrydain yn ystod pandemig COVID-19 ar TB Hub [www.tbhub.co.uk](http://www.tbhub.co.uk) er mwyn cael y cyngor mwyaf cyfredol a chwestiynau cyffredinol eraill yn ymwneud â TB.

Os nad yw'r prawf TB ar eich fferm yn ddiogel, ni fydd unrhyw gosb ariannol am gollu'r dyddiad ar gyfer y profion, ond byddwch yn ddarostyngedig i gyfyngiadau symud. Mae'n bosibl y byddwch yn derbyn llythyr awtomatig yn dweud y byddwch yn derbyn cosb – anwybyddwch y llythyr hwn.

Os nad oes modd cwblhau prawf TB yn ystod y ffenestr brofi ddiffiniedig, yna bydd y fferm dan sylw yn cael ei gosod dan gyfyngiad.

Y rheswm am hyn yw y bydd buchesi o'r fath yn cael eu hystyried yn rhai "o statws TB anhysbys" a gallent achosi mwy o risg TB i fuchesi eraill.

Nawr, yn fwy nag erioed, mae'n hanfodol gofalu am ein lles â'n hiechyd. Mae amryw o sefydliadau cymorth sy'n gallu helpu. Am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael dylech gyfeirio at y canllawiau cwestiynau cyffredin ar brofion TB statudol gwartheg ym Mhrydain yn ystod y pandemig COVID-19 sydd ar TB Hub.

**Dylai ceidwaid sicrhau eu bod nhw yn glynu at gyngor y Llywodraeth ynglyn a Coronavirus (COVID-19) wrth gynnal unrhyw un o'r gweithgareddau uchod.**

---

## Canllawiau stoc trig


Rydym yn cysylltu'n rheolaidd â APHA i fonitro'r sefyllfa o ran stoc trig ac unrhyw broblemau a allai godi pe bai oedi'n digwydd yn y llwybrau gwaredu presennol. Ar hyn o bryd, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau sylweddol ar y diwydiant o ran gwaredu a chasgliadau a byddwn yn parhau i fonitro'r mater yn ofalus. Mae trafodaethau wedi'i cynnal rhwng y diwydiant ffermio a Llywodraeth Cymru ynghylch cwestiynau a godwyd ynghlyn a rhanddirymiad mewn perthynas â chael gwared ar stoc trig. Ar hyn o bryd nid oes rhanddirymiad a mae rhaid cadw at y Rheoliadau ABP fel y maent.





# FarmWell

INFORMATION | SUPPORT | RESILIENCE  
GWYBODAETH | CYMORTH | CADERNID



## Hyb adnoddau cynhwysfawr

Eich helpu chi a'ch busnes fferm i fod yn gryf ac yn gadarn



Hyb adnoddau newydd ar-lein yw FarmWell, ac mae'n llawn gwybodaeth ddefnyddiol i sicrhau eich bod chi a'ch busnes fferm yn aros yn gryf drwy gyfnodau o newid ac i'ch helpu chi i gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

Gallwch ddefnyddio FarmWell am ddim ac mae ganddo dri amcan clir:

### Busnes

Eich helpu chi i ddatblygu eich busnes fferm a'i gadw'n gadarn drwy gyfnodau o newid. Mae FarmWell yn darparu dolenni i'r ffynonellau gwybodaeth mwyaf defnyddiol a hawdd eu defnyddio ar draws pob agwedd ar fusnes fferm, lle gallwch ddod o hyd i'r feithiau i'ch helpu chi i gynllunio'n llwyddiannus ac yn effeithlon.

### Personol

Eich helpu chi, eich teulu a'ch staff i ddelio â newid. Mae FarmWell yn cynnwys dolenni, cyngor a chymorth i'ch helpu chi, gyda'r bwriad o wella eich cadernid emosiynol a chorfforol, gan gynnal amgylchedd gwaith diogel ac iach.

### Cymorth

Canllawiau ar sut gallwch chi gael mynediad at gymorth a mentora ychwanegol, o safbwynt personol a busnes, os bydd angen hynny arnoch.

I gael gwybod  
mwy, ewch i

[farmwell.cymru](http://farmwell.cymru)





# STOPIO'N DDIOGEL SAFE STOP

Cyn gadael y cerbyd neu ganiatáu  
i unrhyw un ddod at y peiriant  
neu gwblhau gwaith:

Before leaving the vehicle cab or  
allowing anyone to approach or  
undertake work on the machine:

1. GOSODWCH Y  
BRÛC LLAW



1. ENGAGE YOUR  
HANDBRAKE

2. RHOWCH Y  
RHEOLYDDION  
YN NIWTRAL



2. PUT CONTROLS  
IN NEUTRAL

3. DIFFODDWCH  
YR INJAN



3. SWITCH OFF  
YOUR ENGINE

4. TYNNWCH  
EICH ALLWEDD  
O'R CERBYD



4. REMOVE YOUR  
KEY FROM THE  
VEHICLE

MAE "STOPIO'N  
DDIOGEL" YN  
ARBED BYWYDAU  
A BYWOLIAETH

PARTNERIAETH  
DIOGELWCH  
FFERM CYMRU  
WALES  
FARM SAFETY  
PARTNERSHIP

"SAFE STOP"  
SAVES LIVES AND  
LIVELIHOODS

# Tîm Cysylltwyr Fferm

Cefnogi Ffermwyr Cymru...  
Cymorth un-i-un cyfrinachol

# FLS

Tim Cysylltwyr Fferm  
Farm Liaison Service



Os ydych angen trafod unrhyw beth cysylltwch gyda un o'r swyddogion isod:

## ARMANDO MORGAN

(Siaradwr Cymraeg)  
Y Gogledd-ddwyrain  
07774 950639  
Armando.morgan@llyw.cymru

## CATRIN JONES

(Siaradwr Cymraeg)  
De-ddwyrain Cymru  
07968 159637  
Catrin.jones3@llyw.cymru

## MERYL EVANS

Y Canolbarth  
07721 894869  
Meryl.evans@llyw.cymru

## JANE WALTERS

Y De-ddwyrain  
07721 894875  
Jane.walters@llyw.cymru

## STEVE MEREDITH

Y Canolbarth  
07721 894873  
Steve.meredith@llyw.cymru

## RITA JONES

(Siaradwr Cymraeg)  
Cymru/Y De-orllewin  
07971 048619  
Rita.jones@llyw.cymru

## GILL HARRIES

Y De-orllewin  
07977 505225  
Gillian.harries@llyw.cymru

## JANET PHILLIPS

(Siaradwr Cymraeg)  
Y Gogledd-orllewin  
07774 950654  
Janet.phillips@llyw.cymru

# RHIFAU FFÔN DEFNYDDIOL

**Cronfa Addington**

01926 620 135

**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid  
a Phlanhigion (APHA)**

0300 303 8268

**Arolwg moch daear marw**

0808 169 5110

**Gwasanaeth Symud  
Gwartheg Prydain (BCMS)**

0345 050 3456

**Sefydliad DPJ**

0800 587 4262

**EID Cymru**

01970 636 959

**Cyswllt Ffermio**

08456 000 813

**Y Rhwydwaith  
Cymunedau Fferm**

03000 111 999

**Lantra Cymru**

01982 552 646

**Cyfoeth Naturiol Cymru  
(CNC)**

0300 065 3000

**Quality Welsh Food  
Certification Body**

01970 636 688

**Sefydliad Fuddianol  
Amaethyddol Frenhinol  
(RABI)**

0808 281 9490

**Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid  
Taliadau Gwledig Cymru**

0300 062 5004

**Llinell Gymorth TB**

0800 496 1439

**Tir Dewi**

0800 121 4722